Care & Repair
Gofal a Thrwsio

# Helpu pobl hŷn Sir Benfro a Cheredigion i drwsio, addasu a chynnal a chadw eu cartrefi.

01437 766717 / 01970 639920



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

**Mae Gofal a Thrwsio yn helpu pobl hŷn sy'n berchnogion tai neu'n denantiaid preifat i fyw'n annibynnol mewn cartrefi diogel, cynnes a chyfleus.**

## Sut y gallwn eich helpu

- Cynnal gwiriad Cartrefi Iach rhad ac am ddim
- Cynghori ar opsiynau i drwsio, cynnal a chadw neu addasu eich cartref
- Helpu i ganfod ffynonellau cyllid ar gyfer unrhyw waith sydd ei angen
- Cynghori a helpu i wneud cais am y budd-daliadau y mae gennych hawl iddynt
- Eich helpu i ganfod contractwr neu adeiladwyr lleol a dibynadwy
- Eich cyfeirio at wasanaethau lleol eraill os oes angen

## Ychydig amdanom ni

Mae Gofal a Thrwsio yn fudiad elusennol Cymru-gyfan, sy'n gweithio i sicrhau fod gan bob person hŷn gartref diogel ac addas ar gyfer eu hanghenion. Ein gweledigaeth yw Cymru lle gall pob person hŷn fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

**Mae ein gwasanaeth ymweld â chartrefi yn RHAD AC AM DDIM a chaiff ei deilwra ar gyfer eich anghenion unigol.**

Efallai eich bod yn pryderu sut y gallwch barhau i fyw yn annibynnol yn eich cartref eich hun wrth i chi heneiddio. Dyna lle gall Gofal a Thrwsio eich helpu.







I ganfod mwy am sut y gallwn eich helpu neu i drefnu ymweliad ffoniwch **01437 766717 / 01970 639920** neu anfon e-bost at **hello@wwcr.co.uk**

**www.careandrepair.org.uk**

**Gwella Cartrefi, Newid Bywydau**